# Adroddiad ar benderfyniadau – canlyniadau'r ymgynghoriad ar ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant

## Manylion cyswllt

Y Gangen Polisi Gwybodaeth Ysgolion a Dysgwyr
Yr Is-adran Safonau, Gwelliant a Gwybodaeth
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ims@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol 978-1-80633-164-2
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2025
WG52589

# Cynnwys


**1. Cefndir** **1**

**2. Penderfyniadau allweddol** **2**

Egwyddorion yr Ecosystem Wybodaeth 2

Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 3

**3. Sut y gwnaethom ystyried yr adborth a rannwyd** **7**

**4. Asesiadau Effaith** **8**

**5. Y Camau Nesaf** **8**

**6. Amserlen** **9**

Ymgysylltu 10

Gwaith cyfochrog 10

# 1. Cefndir

1.1 Ar 10 Ionawr 2025, gwnaethom lansio ymgynghoriad[1] yn amlinellu ein dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac yn ceisio barn ar y canlynol:

- cyfres arfaethedig o egwyddorion i ategu ein dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion, a
- Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 arfaethedig i gefnogi dysgu 14 i 16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru[2] a helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae ysgolion unigol yn cyflawni hyn drwy'r data a'r wybodaeth ar lefel ysgolion sydd ar gael ar lwyfan cyhoeddus.

1.2 Caeodd yr ymgynghoriad ar 14 Mawrth ar ôl cael 53 o ymatebion, a chafodd yr ymatebion hynny eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u coladu mewn adroddiad.

1.3 Yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus, rydym hefyd wedi casglu adborth drwy gyfres o ddigwyddiadau dysgu 14 i 16 i arweinwyr ledled Cymru, lle bu dros 500 o arweinwyr ysgolion uwchradd yn bresennol mewn mwy na 12 o ddigwyddiadau. Roedd 150 o unigolion yn bresennol mewn gweithdy a ganolbwyntiodd ar hunanwerthuso a thrafodaeth fanwl ar ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi hyn.

1.4 Rydym yn ddiolchgar i'r holl randdeiliaid a roddodd o'u hamser i fyfyrio ar ein cynigion a chynnig sylwadau adeiladol.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfres o benderfyniadau ar y cynigion ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd yn ofalus. Gwnaethom nodi yn yr ymgynghoriad y byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu manylion y cynigion a'u mireinio. Lle mae angen cynnwys mwy o fanylion fel rhan o'r camau nesaf, mae hyn wedi'i nodi.

[1] Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion – Llywodraeth Cymu
[2] Canllawiau ar ddysgu 14 i 16 – Hwb

## 2. Penderfyniadau allweddol

### Egwyddorion yr Ecosystem Wybodaeth

Byddwn yn rhoi Egwyddorion yr Ecosystem Wybodaeth i ategu ein dull o ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant.

Byddwn yn:

- rhoi rhagor o fanylion neu arweiniad lle y bydd hynny'n helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o ddiben bwriadedig yr egwyddorion a'r ffordd y bwriedir iddynt gael eu cymhwyso. Bydd hyn yn helpu i sefydlu fframwaith clir ar gyfer cynnal dull gweithredu cymesur a chytbwys, sy'n galluogi ymarferwyr i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn effeithiol ac yn ein helpu i symud i ffwrdd oddi wrth ddull o ddefnyddio data lle mae llawer yn y fantol

- mireinio geiriad rhai o'r egwyddorion er mwyn osgoi unrhyw amwysedd a dryswch

- dangos sut mae'r egwyddorion yn cwmpasu agweddau y credwyd eu bod yn fylchau

- esbonio y byddwn, yng nghyd-destun adrodd ar ddata ar gyfer ysgolion, yn gweithredu mewn ffordd graff ac ystyriol o safbwynt polisi addysg, gan rannu gwybodaeth am brofiadau a deilliannau mewn ffodd sy'n atgyfnerthu'r hyn rydym yn ei werthfawrogi, uchelgeisiau ein polisi, a'n nodau i ddysgwyr

- sicrhau bod ein hymrwymiad i fod yn llywodraeth agored a thryloyw yn glir ac, felly, wrth gyhoeddi ystadegau swyddogion perthnasol, byddwn yn gweithredu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

- nodi'n glir fod diogelwch data unigolion a chydymffurfio â deddfwriaeth, gan gynnwys GDPR, yn brif flaenoriaeth.

**Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16**

Byddwn yn rhoi Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 ar waith fel cyfres o ddangosyddion a gwybodaeth sydd â'r nod o gefnogi'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru a helpu i feithrin dealltwriaeth y cyhoedd o ddysgu 14 i 16 mewn ysgolion, fel y nodir isod.

Bydd y Fframwaith yn amlinellu'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi fel mater o drefn am bob ysgol ochr yn ochr â pha wybodaeth y byddwn yn gofyn i ysgolion ei darparu, er mwyn cefnogi ein nod i roi darlun cytbwys a thryloyw o brofiadau a deilliannau dysgwyr sy'n adlewyrchu'r Hawl i Ddysgu 14 i 16.

## Strwythur

# Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 Trosolwg

### Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd

Trosolwg o'r cofrestriadau ar gyfer cymwysterau perthnasol ym mhob maes pwnc (Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a Rhifedd) sydd wedi'i gynnwys yn yr elfen hon

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Cofrestriadau a dyfarniadau ym mhob ystod graddau (yn amodol ar lefelau digonol o ddysgwyr yn cofrestru iddo fod yn ymarferol adrodd ar ddyfarniadau) yr adroddir arnynt ar wahân ar gyfer pob cymhwyster perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn yr elfen hon

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

### Cymwysterau i annog ehangder

Trosolwg o'r cofrestriadau ar gyfer cymwysterau perthnasol yn y maes pwnc gwyddoniaeth sydd wedi'i gynnwys yn yr elfen hon

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Cofrestriadau a dyfarniadau ym mhob ystod graddau (yn amodol ar lefelau digonol o ddysgwyr yn cofrestru iddo fod yn ymarferol adrodd ar ddyfarniadau) yr adroddir arnynt ar wahân ar gyfer pob cymhwyster TGAU, TAAU a Sylfaen perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn yr elfen hon

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Trosolwg o'r cofrestriadau ar gyfer gwahanol fathau o gymwysterau

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

### Dysgu a phrofiadau ehangach ym mhob rhan o'r cwricwlwm

Cofrestriadau a dyfarniadau ym mhob ystod graddau (yn amodol ar lefelau digonol o ddysgwyr yn cofrestru iddo fod yn ymarferol adrodd ar ddyfarniadau) ar gyfer y Prosiect Personol

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Cofrestriadau a dyfarniadau ym mhob ystod graddau (yn amodol ar lefelau digonol o ddysgwyr yn cofrestru iddo fod yn ymarferol adrodd ar ddyfarniadau) yr adroddir arnynt ar wahân ar gyfer pob cymhwyster Cyfres Sgiliau perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn yr elfen hon

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Gwybodaeth am ddysgu mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb a chrefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n rhan o gwricwlwm ysgol

Cyhoeddiad Ysgol

Gwybodaeth am y cyfleoedd a'r cyfranogiad cwricwlaidd a dysgu ehangach mewn ysgol

Cyhoeddiad Ysgol

### Myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16

#### A - Effeithiolrwydd a lefelau ymgysylltu dysgwyr

Gwybodaeth am helpu dysgwyr i ddysgu'n fwyfwy effeithiol

Cyhoeddiad Ysgol

Gwybodaeth am gyfleoedd ac effaith Llais y Dysgwr a chefnogi Llesiant mewn ysgol

Cyhoeddiad Ysgol

Lefelau presenoldeb ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Lefelau absenoldeb mynych a disgyblion sy'n absennol yn gyson

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

#### B - Cynllunio Ôl-16

Gwybodaeth am gynllunio Ôl-16 a chynllunio ar gyfer pontio mewn ysgol

Cyhoeddiad Ysgol

Cyrchfannau dysgwyr Blwyddyn 11

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

Dysgwyr heb ddim cymwysterau

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52424
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Adroddir ar ddangosyddion sy'n seiliedig ar gymwysterau:

- fel cymwysterau unigol, gan gynnwys data ar gofrestriadau a chanlyniadau, gan adrodd ar draws ystodau graddau a heb ddefnyddio mesurau crynhoi cymhleth sy'n ymgorffori nifer o gymwysterau

- mewn ffordd gyd-destunol[3] ac wedi'i dadgyfuno[4] lle y bo modd.

**Helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16**

Byddwn yn:

- ailgadarnhau diben y Fframwaith a
    - nodi'n glir bod y Fframwaith wedi'i ddylunio'n benodol i gefnogi'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru
    - esbonio mai ei ddiben yw helpu i sicrhau bod data a gwybodaeth am ddysgu ar gyfer y grŵp oedran hwn yn dryloyw a darparu model ar gyfer rhannu'r cyfryw ddata a gwybodaeth Bydd hyn yn helpu'r cyhoedd i ddeall darpariaeth 14-16 ysgolion a'r ffordd y mae ysgolion yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd

- esbonio cwmpas data a'r defnydd a wneir ohonynt ac
    - y bydd y Fframwaith yn rhan o gyfres ehangach o wybodaeth am ysgolion yr ydym yn ei defnyddio ac yn adrodd arni (ar hyn o bryd drwy Fy Ysgol Leol a Chronfeydd Data Craidd Cymru Gyfan)
    - sut mae'r Fframwaith yn amlinellu'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi fel mater o drefn ar lefel ysgolion yn ogystal â pha wybodaeth ychwanegol yr hoffem i ysgolion ei darparu er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o'u darpariaeth 14 i 16 heb gyflwyno beichiau casglu data ychwanegol
    - sut y gellir hefyd ddefnyddio'r model i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i werthuso a gwella gweithgarwch, gan ategu data lleol a dealltwriaeth gyd-destunol
    - sut y byddwn yn datblygu cyfres ar wahân o adnoddau adrodd mwy cynhwysfawr ar gyfer ysgolion sy'n ymgorffori'r Fframwaith, a rennir yn ddiogel ag ysgolion ac awdurdodau i'w defnyddio yn lle'r Cronfeydd Data Cymru Gyfan presennol.

---

[3] Mae **data cyd-destunol** yn cyfeirio at ddata a gyflwynir gyda gwybodaeth gefndir berthnasol, fel cymariaethau â chyfartaleddau cenedlaethol, tueddiadau hanesyddol, neu ffactorau demograffig. Mae hyn yn helpu defnyddwyr i ddehongli'r data mewn ffordd ystyrlon yn y cyd-destun penodol.

[4] Mae **data wedi'u dadgyfuno** yn cyfeirio at ddata sydd wedi'u rhannu'n is-gategorïau (e.e. yn ôl rhyw, cymhwystra ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim neu Anghenion Dysgu Ychwanegol) fel bod modd eu dadansoddi'n fanylach a nodi gwahaniaethau neu anghydraddoldebau a all fod yn cuddio mewn ffigurau cyfanredol.

**Datblygu'r manylion sy'n sail i Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 a helpu i'w roi ar waith**

Byddwn yn:

- nodi sut y bydd ein trefniadau adrodd yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob dysgwr 14 i 16 oed yn cael ei gynrychioli yn ein data a'n gwybodaeth, gan gynnwys y rhai sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol

- datblygu canllawiau clir ac ymarferol ar elfennau o'r Fframwaith lle rydym yn rhoi arweiniad ar y wybodaeth rydym yn gofyn i ysgolion ei rhannu fel rhan o'r broses o'i roi ar waith Bydd hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o'r ffordd y gall ysgolion gyflwyno eu darpariaeth 14 i 16 i'r cyhoedd, yn hyrwyddo cysondeb rhwng ysgolion, ac yn lleihau achosion o ddyblygu ymdrech drwy nodi ble mae'r wybodaeth hon eisoes yn bodoli neu ble mae eisoes ei hangen. Bydd hefyd yn esbonio pa wybodaeth ychwanegol all helpu ysgolion i roi darlun mwy cyflawn o'u darpariaeth 14 i 16

- datblygu systemau adrodd sy'n helpu i rannu gwybodaeth am ddysgu ac yn cefnogi cynnydd mewn ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys llwyfan cyhoeddus i wella dealltwriaeth y cyhoedd o ddysgu, yn ogystal ag adnoddau a systemau adrodd ar gyfer ysgolion ac awdurdodau i gefnogi gwaith hunanwerthuso – gan adeiladu ar systemau sy'n bodoli eisoes fel Fy Ysgol Leol a Chronfeydd Data Craidd Cymru Gyfan neu eu disodli. Bydd hefyd yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio adnoddau digidol i gydweithio a rhannu data'n ddiogel, gwella llif data rhwng darparwyr, a chefnogi ysgolion ymhellach i fodloni gofynion adrodd sy'n bodoli eisoes

- ystyried anghenion datblygu ym maes llythrennedd data ar draws y system ysgolion, a ffyrdd effeithiol ac effeithlon o gyflwyno unrhyw ddarpariaeth ddysgu i leihau'r effaith ar lwyth gwaith. Byddwn yn ystyried hyn o fewn y ddarpariaeth dysgu proffesiynol ehangach sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion.

**Helpu i ddehongli data**

Byddwn yn:

- rhoi arweiniad a naratif clir ynghylch y data a gyhoeddwyd er mwyn helpu i ddehongli data ar ddyfarniadau yn gywir

- parhau i ddatblygu dull adrodd cyd-destunol ac wedi'i ddadgyfuno, gan weithio i wella'r ffordd y caiff y cyd-destun ei gyflwyno a'r ffordd y caiff data ar gyfer categorïau wedi'u dadgyfuno eu dehongli

- archwilio ystod ehangach o ffactorau i helpu i gyd-destunoli dangosyddion, gyda dulliau tryloyw, canllawiau clir, a darpariaeth dysgu proffesiynol i helpu i'w dehongli a'u defnyddio'n briodol

- rhoi arweiniad a naratif clir ynghylch y data a gyhoeddwyd er mwyn helpu i ddehongli data wedi'u dadgyfuno yn gywir.

Ni fyddwn yn:

- bwrw ymlaen â'r trothwy arfaethedig o 50 o gofrestriadau ar gyfer cymhwyster er mwyn adrodd ar ddata ar ddyfarniadau.

Byddwn yn:

- ystyried ffyrdd eraill o gydbwyso'r angen am dryloywder a mynediad ystyrlon at ddata ar ddyfarniadau i'r cyhoedd â'r angen i sicrhau cysondeb ar draws ysgolion o wahanol faint a chymwysterau â lefelau amrywiol o gofrestriadau

- gweithio gyda'r sector i ystyried opsiynau i alluogi hyn, gan gynnwys unrhyw drothwy amgen mewn perthynas â niferoedd cofrestriadau, y broses o grwpio data ar ddyfarniadau dros nifer o flynyddoedd neu gyfuniad o ffactorau priodol

## 3. Sut y gwnaethom ystyried yr adborth a rannwyd

3.1 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a gafwyd drwy ein gwaith ymgysylltu ehangach yn cynnwys amrywiaeth eang o safbwyntiau am wahanol agweddau ar y cynigion. Mae'r adborth wedi rhoi sail dystiolaeth adeiladol i lywio ein penderfyniadau a'n camau nesaf. Mae'r themâu allweddol canlynol wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth lywio ein penderfyniadau a'r gwaith o gynllunio ein camau nesaf.

- **Eglurder a gweithredu:** Roedd dryswch a chamddealltwriaeth o'r cynigion yn amlwg yn rhai o'r sylwadau a gafwyd. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am fwy eglurder o ran sut y byddai'r cynigion yn gweithio yn ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â gwahaniaethu rhwng rolau egwyddorion yr ecosystem wybodaeth a Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16. Mynegodd nifer o ymatebion hefyd bryderon ehangach am ddiwygiadau yn gorgyffwrdd a chymhlethdod polisi, gan awgrymu y byddai enghreifftiau ymarferol a chanllawiau fesul cam yn helpu i sicrhau dealltwriaeth a phroses weithredu fwy cyson.

- **Llwyth gwaith a chapasiti:** Nododd llawer gysylltiadau rhwng y cynigion a'r pwysau presennol ar y gweithlu addysg, gan rybuddio y gallai mwy o ofynion o ran data – yn enwedig o dan Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 – ddwysáu'r heriau o ran llesiant staff. Fodd bynnag, efallai fod y pryderon hyn yn deillio o ansicrwydd ynghylch y broses weithredu, gan fod yr ymgynghoriad yn nodi'n glir fod y cynigion yn dibynnu ar ddefnyddio'r data ar ysgolion a dysgwyr sydd eisoes yn cael eu casglu a'u prosesu. Er bod rhai yn gweld potensial i symleiddio, pwysleisiodd y rhan fwyaf yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant, adnoddau a chanllawiau cenedlaethol.

- **Data cyd-destunol**: Nodwyd safbwyntiau cymysg. Er bod rhai yn croesawu ffordd decach o adlewyrchu amgylchiadau ysgolion, roedd eraill yn ofni y gallai lefelau amrywiol o rai nodweddion dysgwyr ar draws ysgolion atal dealltwriaeth deg o ddeilliannau eu dysgwyr neu gelu gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau dysgwyr. Galwyd am fwy o dryloywder a chysondeb ac am gynnwys mesurau cynnydd.

- **Adrodd ar ddata ar ddyfarniadau cymwysterau a throthwy o 50 o gofrestriadau:** Wrth drafod y trothwy arfaethedig ar gyfer adrodd ar ddata ar ganlyniadau cymwysterau, nodwyd pryderon am anghysondeb o ran yr amrywiaeth o ddata y dylid adrodd arnynt ar draws ysgolion o wahanol faint, a'r potensial i oblygiadau cyhoeddi ddylanwadu ar benderfyniadau am gofrestru dysgwyr ar gyfer arholiadau dros fudd pennaf y dysgwyr. Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai ystumio canfyddiadau a rhwystro amrywiaeth pwnc, ac awgrymwyd y dylid gostwng y trothwy neu sicrhau bod data yn parhau i fod ar gael ar ffurf heb ei gelu at ddefnydd mewnol.

## 4. Asesiadau Effaith

4.1 Cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig llawn, sy'n cynnwys asesiadau effaith ar gyfer Hawliau Plant, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, fel rhan o'r gwaith cyn lansio'r ymgynghoriad a chawsant eu cyhoeddi ochr yn ochr â dogfennau'r ymgynghoriad. Fel rhan o'r ymgynghoriad ei hun, gofynnwyd cwestiynau penodol am oblygiadau posibl o ran llwyth gwaith. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad, ochr yn ochr â sylwadau a gasglwyd drwy ddigwyddiadau dysgu 14 i 16 i arweinwyr a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi llywio ein gwaith asesu effaith parhaus.

4.2 Cytunwyd ar ein penderfyniadau a'n camau nesaf mewn ymateb i'n hasesiad cychwynnol o'r effaith ar lwyth gwaith ac er mwyn rheoli a lleihau'r risg o gynyddu llwyth gwaith a nodwyd. Byddwn yn trin ein hasesiadau effaith fel proses fyw, gan adolygu a diweddaru ein hasesiadau wrth i waith ddatblygu ac wrth i ragor o dystiolaeth ac adborth gan randdeiliaid gael eu casglu.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Cyflwynir rhaglen dreigl o waith ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad ar ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant Bydd y rhaglen hon hefyd yn cyfrannu at waith parhaus ehangach, mewn perthynas ag agweddau ehangach ar yr ecosystem wybodaeth a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, ac fel rhan o'r gwaith o ddatblygu trefniadau gwella ysgolion yn barhaus.

5.2 Ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn ystod hydref a gaeaf 2025/26, byddwn yn:

- cadarnhau ein hegwyddorion diwygiedig ac yn egluro eu diben a'r ffordd y bwriedir iddynt gael eu cymhwyso

- cadarnhau strwythur Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch ei ddiben a'i gwmpas, a'r ffordd y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio

- nodi sut y gall y Fframwaith gynnwys pob dysgwr 14 i 16 oed, gan gynnwys dysgwyr sy'n cael darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol

- datblygu canllawiau i ysgolion ar yr elfennau o'r Fframwaith y gofynnir i ysgolion ddarparu gwybodaeth yn eu cylch

- diffinio'r manylion sy'n sail i'r dangosyddion, gan flaenoriaethu'r rhai sy'n seiliedig ar gymwysterau

- cytuno ar ein dull o gyd-destunoli dangosyddion canlyniadau a ffactorau ar gyfer dadgyfuno

- cytuno ar ddull o adlewyrchu data ar ddyfarniadau ar gyfer cymwysterau y caiff niferoedd is o ddysgwyr eu cofrestru ar eu cyfer er mwyn sicrhau cysondeb rhwng ysgolion o wahanol faint a gwneud yn siŵr bod data ystyrlon ar ddyfarniadau ar gael i'r cyhoedd

- dechrau ystyried sut y gallai model tebyg i Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 helpu dysgwyr i wneud cynnydd ar gamau eraill o'u haddysg, yn enwedig wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

- dechrau ystyried ymarferoldeb dangosyddion sy'n rhoi mwy o wybodaeth i ysgolion am gynnydd eu dysgwyr dros amser, a'r gwaith o ddatblygu'r dangosyddion hynny.

## 6. Amserlen

6.1 Byddwn yn dilyn yr amserlen ganlynol:

- Hydref 2025 – cyhoeddi'r egwyddorion a gadarnhawyd ac egluro eu diben a'r ffordd y bwriedir iddynt gael eu cymhwyso; cyhoeddi strwythur Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 ac egluro ei ddiben.

- Hydref/gaeaf 2025/26 – gweithio gyda rhanddeiliaid ar y manylion sy'n sail i'r dangosyddion sy'n seiliedig ar gymwysterau a chynnwys dysgwyr sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

- Dechrau 2026 – cadarnhau manylion y dangosyddion sy'n seiliedig ar gymwysterau, a chan barhau mewn i wanwyn 2026, pennu dyluniad a manylion yr holl ddangosyddion eraill.

- Gwanwyn 2026 – cadarnhau manylion yr elfennau sy'n weddill o'r Fframwaith a datblygu canllawiau i gefnogi ysgolion o ran yr elfennau y gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth yn eu cylch.

6.2 Bydd ein rhaglen i ddatblygu systemau ac adnoddau digidol yn dechrau yn ystod hydref 2025, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod gaeaf 2025/26. Bydd hyn yn cwmpasu'r llwyfan cyhoeddus, y bwriedir iddo helpu'r cyhoedd i ddeall y ddarpariaeth ddysgu mewn ysgolion a'r adnoddau a'r systemau adrodd ar gyfer ysgolion ac awdurdodau i gefnogi gwaith hunanwerthuso, gan adeiladu ar systemau sy'n bodoli eisoes fel Fy Ysgol Leol a Chronfeydd Data Craidd Cymru Gyfan neu eu disodli. Wrth i'r gwaith datblygu fynd rhagddo, a chyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o dan y trefniadau newydd yn 2027, byddwn yn darparu hyfforddiant a chanllawiau i helpu i ddefnyddio'r data yn effeithiol a'u dehongli'n gywir.

6.3 Caiff trefniadau adrodd newydd sy'n cyd-fynd â Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 eu rhoi ar waith am y tro cyntaf mewn perthynas â chanlyniadau haf 2027. Bydd hyn yn digwydd ar yr un pryd ag y bydd y garfan gyntaf o ddysgwyr 14 i 16 oed fydd yn cwblhau Blwyddyn 11 o dan y Cwricwlwm i Gymru.

**Ymgysylltu**

6.4 Rydym eisoes wedi nodi mai canlyniadau'r ymgynghoriad yw'r cam cyntaf tuag at ddiffinio ein dull o ddefnyddio data a gwybodaeth a threfniadau adrodd ar gyfer data ar ysgolion a dysgwyr yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr ac ymarferwyr i ddatblygu a mireinio manylion dangosyddion ac adroddiadau, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu'n ehangach ar draws y system a chyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys rhieni a'r cyhoedd.

**Gwaith cyfochrog**

6.5 Byddwn hefyd yn ystyried yr amrywiaeth o feysydd polisi addysg, gan sicrhau bod y data a gesglir yn ychwanegu gwerth ac y gellir eu defnyddio mewn ffordd ystyrlon i gefnogi dysgu, yn unol ag egwyddorion ein hecosystem wybodaeth newydd.

6.6 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, byddwn hefyd yn ceisio safbwyntiau ar sut mae data ar ysgolion a dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau ystadegau swyddogol.